

Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, nos Fercher, 20 Tachwedd 2024, yn dilyn cyfarfod y Cyngor a'i ragflaenodd.

### **PRESENNOL**

Y Cyngorydd Ms. J. McAlpine (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs. J. Chamberlain-Jones, S. Feeney, K.R. Jones, Mrs. D. King, W. Price, Ms R.S. Roberts, D. Simmons, ac A. Walker.

### **Hefyd yn bresennol**

Y Cyngorydd Mrs E. Chard – Arsylwi  
Mr. G.J. Nickels – Clerc y Dref  
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

### **29. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs. M. Blakeley-Walker, Miss S. Fleming, B. Mellor, Ms. V. Roberts, ac A. J. Rutherford

### **30. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a **PHENDERFYNWYD** fel y nodir wrth y cais.

**Nodyn 1:** Cyngorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

#### **RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO**

30.1 **LLEOLIAD Y SAFLE:** 68 Ffordd Dyserth, Y Rhyl

**WARD:** Tŷ Newydd

**CYNGHORWYR Y WARD:** M. Blackwell  
A. Walker  
Miss C.L. Williams

**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1441

**DISGRIFIAD:** Amrywio amod rhif dau caniatâd cynllunio cyfeirnod 45/2024/0124/PF i ganiatáu dyluniad diwygiedig

**YMGEISYDD:** Mr. Stewart Kelly o'r cyfeiriad uchod

	<b><u>PENDERFYNIAD:</u></b> <i>Dim gwrthwynebiad</i>
30.2	<b><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u></b> Coed Derw, Ffordd Bryn Cwnin, Y Rhyl, LL18 4TH  <b><u>WARD:</u></b> Derwen  <b><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u></b> Mrs. J. Chamberlain Jones Mrs. E.M. Chard Miss S. Roberts  <b><u>RHIF Y CAIS:</u></b> 45/2024/1471  <b><u>DISGRIFIAD:</u></b> Gwaith lleihau coron coed a gwaith tocio ar nifer o goed sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Cadw Coed 2/33/1988 cyn Gyngor Bwrdeistref Rhuddlan  <b><u>YMGEISYDD:</u></b> Mr Steve Cutmore o'r cyfeiriad uchod  <b><u>PENDERFYNIAD:</u></b> <i>Dim gwrthwynebiad</i>

### 31. **DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: .....

Dyddiad: .....